| | | |
|---|---|---|
| Cyfeiriad e-bost | eich cyfeiriad ar-lein | defnyddiwch ffugenw, peidiwch â rhoi eich manylion |
| Firysau | gallant ddileu eich ffeiliau a dinistrio eich cyfrifiadur neu deithio mewn e-bost, drwy atodiadau neu ddolenni | dilëwch hwy heb eu hagor |
| Seibr-fwlio | pan fydd rhywun yn defnyddio'r rhyngrwyd neu ffôn symudol i gynhyrfu rhywun arall yn fwriadol | dysgwch sut i flocio negeseuon/dywedwch wrth oedolyn |

| | | |
|---|---|---|
| Seibr-ffrind | ffrind yr ydych ond yn ei adnabod ar y rhyngrwyd neu seibr-ofod | cyfathrebwch gyda phobl yr ydych yn eu hadnabod mewn bywyd go iawn yn unig |
| Phishing | bydd rhai e-byst yn ceisio eich twyllo i ddatgelu gwybodaeth bersonol | peidiwch â datgelu unrhyw wybodaeth bersonol |
| Negeseua gwib | pobl yn cyfarfod ar-lein i siarad â'i gilydd | gwnewch yn siŵr eich bod yn adnabod y bobl sydd ar eich rhestr cysylltiadau mewn bywyd go iawn |

| | | |
|---|---|---|
| Stafell sgwrsio | amgylchedd agored lle gall pobl siarad â'i gilydd | defnyddiwch safle sydd â chymedrolwr |
| Gwe gamera | camera digidol a ddefnyddir i dynnu lluniau a'u trosglwyddo dros y rhyngrwyd | trowch y camera i'r cyfeiriad arall pan na fydd yn cael ei ddefnyddio |
| Cerddoriaeth | os ydych yn lawrlwytho cerddoriaeth P2P (peer to peer) efallai y byddwch yn gadael i ddefnyddwyr eraill gael myndediad at eich cyfrifiadur | lawrlwythwch gerddoriaeth o wefannau cyfreithlon yn unig |

| | | |
|---|---|---|
| Rhannu ffeiliau | caiff clipiau sain a fideo amheus eu hanfon o gwmpas gan ddefnyddio rhwydweithiau a rennir a gallai eich rhieni fynd i drafferthion mawr | diogelwch eich hun drwy lawrlwytho clipiau sain a fideo o wefannau cyfreithlon yn unig |
| Bluetooth | cysylltiad diwifr ar gyfer ffonau, cyfrifiaduron, bysellbadiau ac ati sy'n caniatáu iddynt gyfathrebu | diffoddwch eich ffôn/cyfrifiadur pan na'i defnyddir gan y gall unrhyw un gael mynediad at eich gwybodaeth pan fydd ymlaen |
| Gosodiad preifatrwydd | diogelwch i wneud yn siŵr eich bod yn ddiogel rhag dieithriaid a allai anfon negeseuon nad ydych eu heisiau. | newidiwch y gosodiadau fel mai dim ond eich ffrindiau yn y byd go iawn all gael mynediad i'ch gwefan |